# ATODLEN

Erthygl 11

Symudiadau a Ganiateir

Caniateir y symudiadau canlynol heb brofion cyn symud:

**Symud ar gyfer cigydda**

**1.** Symud anifail buchol yn uniongyrchol ar gyfer ei gigydda.

**Symud i farchnadoedd cigydda**

**2.** Symud anifail buchol yn uniongyrchol i farchnad o'r hon y mae pob anifail yn mynd yn uniongyrchol i'w gigydda.

**Symud i unedau pesgi wedi'u heithrio**

**3.** Symud anifail buchol yn uniongyrchol i uned besgi wedi'i heithrio, sef uned besgi sydd wedi'i chymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer derbyn anifeiliaid buchol nad ydynt wedi derbyn prawf ar gyfer twbercwlosis cyn eu symud yn unol â'r Gorchymyn hwn.

**Symud i farchnadoedd wedi'u heithrio**

**4.** Symud anifail buchol yn uniongyrchol i farchnad wedi'i heithrio, sef marchnad sydd wedi'i chymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer derbyn anifail buchol nad ydynt wedi derbyn profion ar gyfer twbercwlosis cyn eu symud yn unol â'r Gorchymyn hwn, ar yr amod ei fod un ai'n cael ei ddychwelyd yn uniongyrchol i'r fangre y daeth ohoni, neu'n uniongyrchol i uned besgi a esemptiwyd neu a gymeradwywyd neu'n uniongyrchol i'w gigydda.

**Symudiadau i ganolfannau casglu wedi'u cymeradwyo**

**5.** Symud anifail buchol yn uniongyrchol i ganolfan gasglu wedi'i chymeradwyo, sef canolfan gasglu sydd wedi'i chymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer derbyn anifeiliaid buchol sy'n dod o fangreoedd sydd dan gyfyngiadau symud mewn perthynas â thwbercwlosis.

**Symud i unedau pesgi wedi'u cymeradwyo**

**6.** Symud anifail buchol yn uniongyrchol i uned besgi wedi'i chymeradwyo, sef uned besgi sydd wedi'i chymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer derbyn anifeiliaid buchol sy'n dod o fangreoedd sydd dan gyfyngiadau symud mewn perthynas â thwbercwlosis.

**Tir comin**

**7.**—(1) Symud anifail buchol rhwng tiroedd dros ba rai y mae gan berchennog neu geidwad yr anifail hawl tir comin cofrestredig ac—

(a) mangre sydd wedi'i meddiannu gan berchennog neu geidwad yr anifail ac y mae'r hawl tir comin cofrestredig fel arfer yn cael ei harfer mewn perthynas â hi; neu

(b) mangre sydd wedi'i meddiannu gan unrhyw berson arall sydd â hawl tir comin cofrestredig dros y tir hwnnw ac y mae'r hawl tir comin cofrestredig fel arfer yn cael ei harfer mewn perthynas â hi.

(2) Symud anifail buchol rhwng mangre sydd wedi'i meddiannu gan berchennog neu geidwad yr anifail ac y mae hawl tir comin cofrestredig fel arfer yn cael ei harfer mewn perthynas â hi, a mangre sydd wedi'i meddiannu gan unrhyw berson arall sydd â hawl tir comin cofrestredig dros y

tir hwnnw ac y mae hawl tir comin cofrestredig y person arall hwnnw fel arfer yn cael ei harfer mewn perthynas â hi.

(3) Yn y paragraff hwn, mae "hawl tir comin cofrestredig" ("*registered right of common*") yn golygu hawl tir comin a gofrestrwyd o dan Ddeddf Cofrestru Tir Comin 1965 neu hawl tir comin sydd wedi'i eithrio o'r fath gofrestru ond sydd wedi'i gofrestru, ei ddynodi, ei gysylltu, neu wedi'i gydnabod, ei barhau neu ei gadw o dan unrhyw un o'r canlynol neu'n unol â hwy: Deddf y Fforest Newydd 1854, 1949, 1964 a 1970, a Deddfau Fforest Epping 1878 a 1880, neu Ddeddf Dinas Llundain (Pwerau Amrywiol) 1977, neu unrhyw hawl neu ganiatâd tebyg a arferir yn Fforest y Ddena.

### Symud o fewn grwp meddiannaeth unigol

**8.** Symud anifail buchol rhwng mangreoedd sydd mewn grŵp meddiannaeth unigol sydd wedi'i gymeradwyo, a hynny'n set o fangreoedd a awdurdodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol fel grŵp meddiannaeth unigol o ganlyniad iddynt gael eu cysylltu yn nhermau eu rheoli.

### Symud ar gyfer triniaeth filfeddygol

**9.** Symud anifail buchol i le ar gyfer triniaeth filfeddygol ar yr amod ei fod yn cael ei ddychwelyd i'r fangre y daeth ohoni ar ôl y driniaeth neu'i fod yn cael ei ladd neu'n mynd yn uniongyrchol i'w gigydda.

### Symud i sioeau amaethyddol

**10.** Symud anifail buchol i sioe amaethyddol neu gyfres o sioeau ar yr amod ei fod yn cael ei ddychwelyd yn uniongyrchol i'r fangre y daeth ohoni ar ôl y sioe neu'r sioeau.